

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun

Datblygu Ysgol: Adroddiad sy'n adfyrfyrio'n

feirniadaol ar y camau gweithredu, yr effaith ar

Sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Gofynion yr aseiniad yma yw i adfyrfyrio'n feirniadol ar y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) ein lleoliad PAP 2. Gan gymryd amser i ystyried y camau gweithredu, ar effaith system dystiolaeth a mesur ar gyflawni'r camau gweithredu a sefydlwyd gan yr ysgol. Fe fydd rhaid ystyried yn ddyfnder un agwedd o'r CDY er mwyn cwblhau hon. Mi fydd yr ymchwilydd yn adfyrfyrio ar Flaenoriaeth yr ysgol o ddatblygu Arweinyddiaeth Ganolig yr ysgol. Lle sefydlwyd tair nod i ddatblygu a mireinio arweinyddiaeth effeithiol gan bwysleisio pwysigrwydd rheolaeth ddosbarthedig, er mwyn gwella medru gwerthusol adrannau'r ysgol.

Amlinelliad o'r ysgol


Mae'r ysgol a astudiwyd yn ysgol uwchradd Cymraeg sydd yn darparu addysg i ddysgwyr o 11-18 oed. Mae'r ysgol wedi lleoli yn Abertawe ac yn uno dysgwyr trefol, arfordirol ac amaethyddol. Felly, mae gan yr ysgol diwylliant unigryw iawn. Adroddwyd Estyn yn 2014 fod 818 o ddisgyblion ar y gofrestr. Nodwyd Estyn fod hyn yn gynydd sylweddol yn y niferoedd ers yr arolwg blaenorol tair flwyddyn cyn ag. Roedd 7.3% o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn prydau am ddim sydd yn cymharol isel i'r niferoedd cenedlaethol. Ers yr arolwg yn 2014 mae'r ysgol bellach wedi esblygu ac mae bron 1200 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae dal yna nifer bach o ddisgyblion (7.8%) sydd yn derbyn PYD o fewn yr ysgol ac mae gan yr ysgol presenoldeb cyfartaledd uchel o 95.7%.

Yn 2014 roedd yr ysgol yn yr 10fed safle yn ôl ysgolion uwchradd eu hardal yn ôl y gyllideb fesul disgybl ar £4,388. Yr uchafswm sydd yn bosib yn yr ardal yw £6,408. Er hyn mae'r gyllideb fesul disgybl wedi cynyddu i £6,050 yn 2022.

Adolygiad Llenyddiaeth

Pwrpas y defnydd o CDY yw sefydlu strategaeth yr ysgol wrth ystyried yr amcanion a chamau gweithredu yn erbyn gwelliant yn ddeilliannau'r dysgwyr. Ffurfiwyd y Llywodraeth Cymru (2014) offeryn CDY Newydd gan y gofyn i ysgolion i fod yn hunan-adyfyriol o'i ddata a pherfformiad. Trafodwyd yr CDY fel cynllun strategaethol sef ymdrech ddisgybledig i gynhyrchu penderfyniadau a chamau gweithredu sy'n llywio'r sefydliad (Bryson, 1988) Mae ffocws cynyddol wedi ffurfio yn ôl datblygu llywodraethu sefydliadau cyhoeddus gan ddarparu gyda'r offer neu adnoddau sydd angen (Biondi a Russo, 2022). Awgrymwyd Biondi a Russo (2022) gall wneud hwn trwy ddarparu offer addas i gefnogi'r proses o wneud penderfyniadau ac i fonitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Awgrymwyd yr offeryn CDY gan Lywodraeth Cymru (2014) fod ysgolion yn dilyn y ffigwr isod wrth ffurfio CDY.

Figwr 1. Strwythur CDY Llywodraeth Cymru (2014)



Yn gyntaf mae angen i ysgol sefydlu gweledigaeth glir o ran beth maen nhw yn edrych am gyflawni neu addasu. Nodwyd Hoyer et. al, (2018) fod gweledigaeth glir yn bwysig o ran edrych ymlaen At y dyfodol er mwyn nodi'r hyn mae'r sefydliad am dargedu dros y tymor hir neu ganolig. Mi fydd sefydlu gweledigaeth yn ffurfio cyfeiriad ar gyfer lunio CDY.

Dyle fod yr ysgol wedyn yn cwblhau sesiwn hunanwerthuso i adfyfrio ar eu perfformiad. Fydd disgwyl i'r sefydliad i analluedd data er mwyn ffurfio camau weithredu. Gallent ddefnyddio dulliau cymysg i ddarparu data ansoddol a data meintiol er mwyn eu hystyried. Ffynonellau fel adroddiadau arolwg, ffigurau am bresenoldeb neu sgoriau PISA. Buddion cynnal hunanwerthusiad yw eu bod yn uwchleuo lle mae'r ysgol yn gryf, neu pa adrannau sydd angen cefnogaeth/neu i wella ac i ystyried pa mor dda mae'r ysgol yn perfformio. Fe all hun cyfrannu at wella perfformiad trwy ofyn i sefydliad i ystyried eu profiad blaenorol (Ashford a DeRue, 2012). Yn fwy cysylltiedig gyda'r flaenoriaeth a astudiwyd trwy adfyfrio fel tîm ar y cyd yn helpu i fyfrio'n agored ar yr hyn sydd yn berthnasol i'r tîm (West, 2000). Bydd adfyfrio ar y cyd yn gwella perfformiad tîm ac y neu helpu iddynt addasu i ansicrwydd (West, 2000). Defnyddiwyd y cam yma i ffurfio blaenoriaethau i'r ysgol cyn symud ymlaen i ystyried yr hyn sydd angen gwneud er mwyn cyflawni nhw.

Symudwyd y sefydliad wedyn i gynllunio yn strategol. Dyma'r broses o ffurfio CDY I gefnogi'r ysgol i fod y fwyaf effeithiol ag sy'n bosib, gan gymryd y pwyntiau a chasglwyd yn yr hunan werthusiad. Mae'n bwysig i cynnwys yr holl rhanddeiliaid yn y rhan yma o ffurfio CDY gan gynnwys, dysgwyr, athrawon, rhieni, llywodraethwyr, y sir ayb. Fe fydd cynnwys yr rhandeiliaid yma yn helpu ffurfio ymrwymiad gan bawb tuag at yr CDY (Llywodraeth Cymru, 2014) sydd yn debyg i'r hyn a dwedodd West (2000). Nodwyd gan Lywodraeth Cymru (2014) fod y cam yma yn gam hanfodol o ffurfio CDY gan neu fod yn gallu help i hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth yn yr holl rhandeiliaid. Fe all ffurfio datganiadau cenhadaeth a gweledigaeth, nodi amcanion sefydliadol a phenderfynu ar fesuriadau perfformiad hefyd cyfrannu at yr ymdeimlad yma (Hoye, et al., 2018). O ganlyniad ffurfiwyd y sefydliad camau gweithredu ar gyfer pob blaenoriaeth gan amlinellu'r mesuriadau perfformiad ar gyfer adfyfrio arni. Dyle fod wedi nodi yn glir pwy fydd ynghlwm ar flaenoriaeth e.e.. athrawon, dysgwr, tîm rheoli neu lywodraethwyr. Gan hefyd ystyried pa mor aml fe fydd y sefydliad yn ail ymweld ar gamau gweithredu er mwyn fyfrio ar effeithlonrwydd y cam gweithredu penodol.

Ac yna fe fydd angen gweithredu ar y camau gwelliant a sefydlwyd yn ystod y cam cynllunio strategol. Fe fydd disgwyl i'r ysgol wedyn i ffurfio polisïau neu i gynllunio ar gyfer gweithredu ar y strategaeth a ffurfiwyd e.e.. os oedd ysgol am leihau defnydd

ffonau symudol gan y dysgwyr, fe fydd disgwyl i'r tîm rheoli ysgrifennu polisi ffonau symudol ac wedyn wneud yn siŵr mae'n yn cael eu gweithredu ledled yr ysgol gan bob aelod o staff. Er mwyn neud yn siŵr mae'r CDY yn cael eu gweithredu yn gywir dylai wedi amlinellu yn glir o fewn yr CDY, gyfrifoldebau atebolrwydd a llinell amser ar gyfer y cam (Llywodraeth Cymru,2014).

Yn olaf dylai'r ysgol adolygu'r effaith o'r flaenoriaeth ar gamau gweithredu. Dylai adolygiad fel hyn digwydd yn aml e.e.. yn flynyddol neu yn hanner blyneddol. Dywedwyd Rheoliad 6 Llywodarth Cymru (2014) fod angen i'r ddogfen cael eu diweddarau yn flynyddol neu ar ôl arolygiad Estyn er mwyn wneud yn sicr fod yr CDY yn adlewyrchu cyd-destun mwyaf diweddaraf i'r ysgol. Ar ôl cyflawni adolygiad o'r effaith mae'n bosib fe fydd angen ail-lunio'r weledigaeth er mwyn cynrychioli blaenoriaethau newydd yn dibynnu ar y cyd-destun. Dylai'r CDY cael eu barnu ar yr amodau o'r gwelliant mae'n effeithio nid yn yr hyn sydd yn cael eu cynnwys yn y ddogfen.

Datbygu pwynt gweithredu

Mae'r ysgol a astudiwyd bellach wedyn ceisio sefydlu targedau penodol i'r ysgol er mwyn parhau i'w ddatblygu wrth ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol o Godi safonau addysg mewn perthynas â llythrennydd a rhifedd. Gan weithio i leihau effaith tlogdi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'n angenrheidiol i'r ysgol amlinellu'r ffordd mae'n yn fwriadau cyrraedd y blaenoriaethau a sefydlwyd, gan nodi'r effaith ar gyllid yr ysgol ac unrhyw ffordd mae'n yn bwriadu datblygu staff yr ysgol. Dyle fod y ddogfen yn fyw ac yn amlinellu'r camau gweithred sydd yn cael eu ffocysu ar yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn yr ysgol a thrafodwyd yn yr aseiniad maen nhw yn uwchleuo'r pwyntiau gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022 mae'r ysgol bellach wedi newid eu cynllun datblygu ysgol flaenorol i'r strwythur Newydd gan Lywodraethu Cymru ar gyfer ysgolion y wlad. Ffurfiwyd yr ysgol chwe blaenoriaeth sydd yn deillio ar draws gwahanol gategoriâu perthnasol i'r ysgol. Seiliwyd y blaenoriaethau ar arweinyddiaeth, Addysgu, dysgu, lechyd a lles. Roedd ystyriaeth wedi cael eu rhoi i awgrymiadau o'r arolwg blaenorol, effaith pandemig Covid-19, a'r ddeddf ADY

Newydd. Fe fydd y blaenoriaethau yn cael eu defnyddio i ddarparu cyfeiriad ac atebolrwydd i'r sefydliad.

Prif ffocws yr aseiniad fydd i ystyried yn ddyfnder blaenoriaeth 4 o ddatblygu arweinyddiaeth ganol yn yr ysgol. Fel y gwelwch yn ffigwr 1. mae'r ysgol yn gweithio at ddatblygu arweinyddiaeth ar wahanol lefelau trwy gydol yr ysgol. Ac yn cymryd camau pwrpasol er mwyn gwella medrau gwerthusol o fewn meysydd o dan gyfrifoldeb arweinwyr canol.

Figwr 1. Nod ar gyfer blaenoriaeth 4

Blaenoriaeth 4 - Arweinyddiaeth Ganol

- Parhau i ddatblygu a mireinio arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn yr ysgol gan bwysleisio pwysigrwydd Rheolaeth Ddosbarthedig a gwella medrau gwerthusol ychydig iawn o'n harweinwyr canol ym meysydd eu cyfrifoldeb

Mae'r rhesymeg dros y flaenoriaeth yn gysylltiedig ar ôl arolwg Estyn yn 2014 ar weledigaeth yr ysgol o sefydlu'r egwyddor o arweinyddiaeth ddosbarthedig gan ddilyn egwyddorion er mwyn datblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n hybu dysgu. Fe fydd yr ysgol yn defnyddio nifer fawr o ddogfennau er mwyn tystio'r flaenoriaeth megis safonau a chanlyniadau'r ysgol, Llyfrau'r dysgwyr, proses craffu ar lyfrau, cofnodion Cyfarfodydd Rheolwyr Canol a Rheolwyr llinell a fwy.

Amcanion y flaenoriaeth yma yw cynnal cyfarfodydd hanner tymhorol er mwyn lledaenu ac esblygu arferion da neu ragorol. Ceiwyd datblygu cysondeb ac atebolrwydd ar sail prosesau gwerthuso a rheoli ansawdd yr ysgol wrth ddiogelu prosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant adrannau yn fwy gwerthusol miniog a chryno. Hefyd, I drefnu noson Hyfforddi Mewn Swydd (HMS) gyda Tom Sherrington er mwyn sbarduno staff i fod yn arweinwyr o ansawdd.

Sefydlwyd yr ysgol meini prawf llwyddiant ar gyfer blaenoriaeth 4 sydd yn cynnwys ceisio cael pob rheolwyr Canol i ymateb yn gadarnhaol i'w cyfrifoldeb proffesiynol gan ddangos nodweddion cadarnhaol o arweinyddiaeth wrth gynnig arweiniad clir. Ceisiwyd yr ysgol hefyd i uwchsgilio ac arfogi bron pob un o'r rheolwyr canol a ffurfio cysondeb ac atebolrwydd ar sail prosesau rheoli ansawdd a gwerthuso.

Figwr 3. Manylion Blaenoriaeth yr ysgol

BLAENORIAETH 4 – Targed Ôl Arolwg Estyn – Arweinyddiaeth a Rheolaeth ➤ O fewn Arweinyddiaeth Ganol yr ysgol, parhau i ledu arferion o Ragoriaeth o fewn agweddau o addysgu, dysgu ac asesu. Datblygu cysondebau ac atebolrwydd ar sail prosesau gwerthuso a rheoli ansawdd yr ysgol e.e. Arsylwi Gwersi, Craffu ar Lyfrau. Diogelu bod yr HWCADAD Adrannol yn ymateb i sylwadau ac yn cynllunio datblygiad pellach. Datblygu fformat Cynllun Datblygu Ysgol a gwerthuso newydd ar sail offeryn Llywodraeth Cymru	MEINI PRAWF LLWYDDIANT YN SEILIEDIG AR SAFONAU NEU ANSAWDD:
ATEBOLRWYDD MEWNOL JC, GW; RHEOLWYR LLINELL	- Anelu at gael bron pob un o'n Rheolwyr Canol i ymateb yn gadarnhaol i'w cyfrifoldeb proffesiynol a dangos nodweddion cadarnhaol o arweinyddiaeth wrth gynnig arweiniad clir a diamwys o ran ffocws ar dyfu arferion dysgu ac addysgu o ansawdd. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn safonau adrannol, ymrwymiad aelodau'r adran i'w DPP a hynny er mwyn eu tyfu fel arweinwyr y dyfodol a symud yr adran / MDaPh / yr ysgol ymlaen - Uwchsgilio ac arfogi bron pob un o'n Rheolwyr Canol gyda'r wybodaeth a'r sgiliau mwyaf cyfredol er mwyn cyfoethogi profiadau Dysgu ein Dysgwyr - Prosesau e.e. Craffu, Arsylwi, Rheoli Perfformiad mewn lle i adnabod a lledu Rhagoriaeth o fewn agweddau o addysgu, dysgu ac asesu ar gyfer dysgu fel bod y disgwyliadau yn hysbys i bron pob un o'n Rheolwyr Canol - Cynnal sgysiaau proffesiynol o ansawdd mewn cyfarfodydd Rheolwyr Canol; Rheolwyr Llinell; Cyfarfodydd Adran / MDaPh trwy rannu agenda cytunedig cyn pob cyfarfod a defnyddio Cofnodion i fyfyrir ar ddatblygiadau - Cysondeb ac atebolrwydd ar sail prosesau rheoli ansawdd a gwerthuso - HWCADAD adrannol yn ddogfen fyw, finiog a hylaw ym mron pob un o'n hadrannau yn dathlu cryfderau ond hefyd yn cynllunio gwelliant ar sail blaenoriaethu'r ysgol a thargedau sylwgar cytunedig a fydd yn gyrru gwelliant yn ansawdd y dysgu a'r addysgu - Sesiynau HMS pob hanner tymor i'n Harweinwyr Canol gyda'r disgwyliad eu bod yn rhaeadu'r wybodaeth yn ôl i'w hadrannau / MDaPh - Gwireddu ein gweledigaeth o fod yn Ysgol sy'n Sefydliad Dysgu
PAM Y FLAENORIAETH? Blaenoriaeth Ôl-Arolwg Estyn 2014; gweledigaeth yr ysgol o sefydlu'r egwyddor o arweinyddiaeth ddosbarthedig; egwyddorion Ysgol fel Sefydliad sy'n Hybu Dysgu DOGFENNAU SY'N CYNWYS TYSTIOLAETH I GEFNOGI DEWIS Y FLAENORIAETH? - Safonau a chanlyniadau'r ysgol - Llyfrau'r Dysgwyr - Proses Craffu ar Lyfrau - Proses Llais y Dysgwyr - Proses Arsylwi gwersi - Llais Rhanddeiliad Ysgol Gyfun Gŵyr - Cofnodion Cyfarfodydd Rheolwyr Canol a Rheolwyr Llinell - Polisi Addysgu Dysgu ac Asesu ar gyfer Dysgu'r Ysgol - Dogfennau Craffu ar Lyfrau – Rhannu Arfer Dda - Polisi Asesu ar gyfer Dysgu'r Ysgol - Polisi CAMU - HWCADAD Adrannau / Penaethiaid Blwyddyn / Cydlynwyr - Rhaglen Drafod Cyfarfodydd Llinell 2022 / 2023 - Gwerthusiad Darpariaeth DPP yr ysgol - Rhaglen HMS 2022 / 2023	

Yn y flwyddyn academiaidd 2022-2023 mae'r ysgol yn ceisio datblygu un cam gweithredu sef cam 4.1. Yn y cam yma mae'r ysgol yn ceisio datblygu fformat CDY a gwerthuso newydd ar sail yr offeryn Llywodraeth Cymru ac i barhau rhannu arferion da gan ganolbwyntio ar dargedau cryno a miniog a sicrhau bod adrannau yn gweithredu ar ganfyddiadau geir yn y blaenoriaethau. Fe fydd yr ysgol yn monitro i werthuso cynnydd try cyfarfodydd rheolwr llinell ym mis Medi/Hydref 2022 ac yn eu gwerthuso diwedd y cyfnodau yn fisoedd Ionawr a Gorffennaf 2023.

Mae'r ysgol yn dymuno fe fydd yr effaith y flaenoriaeth yma ar y dysgwyr yn cael eu gweld trwy cyfoethi profiadau dysgu trwy adnabod meysydd pellach i'w datblygu. Does dim cost ariannol i'r ysgol yn gysylltiedig ar y cam gweithredu yma. Yn ôl yr adfyfriad canol flwyddyn mae'r ysgol wedi casglu fod prosesau craffu llyfrau ac arsylwi gwersi yn dangos safonau da neu ragorol ac fe rannwyd arfer rhagorol gyda phob aelod o staff er mwyn cynnal cynnydd pellach. Casglodd fod y rheolwyr canol o ansawdd da neu dda iawn gydag adnabyddiaeth gadarn o'u meysydd cyfrifoldeb a gallant werthuso a chynllunio gwelliant.

Adfyrfyrio a gwerthuso

Awgrymwyd gan Johnson, et al., (2002) mae yna gwahanol ffurf o newid I sefydliad sef newid cynyddrannol neu newid trawsnewidiol. Ni all newid trawsnewidiol digwydd o fewn y strwythur presennol y sefydliad, ac fe all digwydd trwy newid gorfodol neu wedi eu cynllunio. Er gall newid cynyddrannol digwydd trwy adlino strategaeth a gweledigaeth yr ysgol. Mae newid cynyddrannol yn adeiladau ar y strwythurau, sgiliau a chredoau presennol y sefydliad er mwyn ennill cymhelliant ac ymrwymiad rhandaliad y sefydliad (Johnson, et al., 2002). Yn yr achos yma mae'r ysgol wedi gorfod neud addasiadau oherwydd y datblygiad Newydd gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn ffurfio cynllun strategol i'r ysgol. Defnyddir yr ysgol arweinyddiaeth drawsnewidiol a cynyddrannol er mwyn ffurfio'r CDY Newydd.

Dangoswyd yr ysgol eu dealltwriaeth o'r proses newydd gan eu hamlinelliad clir o'r camau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (____) yn ffigwr.1. Mae'r ysgol wedi dangos yn glir eu mesuriadau perfformiad ac wedi cwblhau adfyfyria yn amserol fel y trefnwyd. Mae'r blaenoriaethau yn glir gan yr ysgol ac maent wedi seilio ar dystiolaeth a data cadarn fel awgrymiadau arolwg Estyn, a data mewnol yr ysgol. Er hyn mae'r ysgol yn derbyn mae'r awgrymiadau Estyn efallai bach yn ddyddiedig, ac efallai ddim yn adlewyrchiad teg o ddatblygiad yr ysgol o fewn y bron deng mlynedd diwethaf. Fodd Bynnag mae'r ysgol yn ystyried yn gryf yr effaith mae Covid-19 wedi cael ar rhai o'r blaenoriaethau arall ac maen nhw wedi ffurfio cynllun clir am yr hyn sydd angen eu gwneud. Fe nodwyd Kim ac Ashbury yn 2020 fod y dyfodol ar ôl y pandemig yn aneglur ond fe fydd yn sicr angen hyblygrwydd sefydliadol, gwydnwch a chydweithrediad gan athrawon ac arweinyddiaeth glir gan y Llywodraeth yn ôl cynlluniau mae'r ysgol ac astudiwyd wedi dangos eu gallu yn pob categori.

Cytunaf gyda'r cydsyniad o ddatblygu arweinyddiaeth ganol er mwyn gallu rhannu'r gweithlu rhwng aelodau arweiniol yr ysgol. Er hyn, mae pob athro/athrawes yn yr ysgol gyda rôl o arweinyddiaeth ac fe all hwn fel targed cael eu datblygu ar draws pawb ac nid dim ond o fewn yr arweinyddiaeth ganol. Teimlaf fe fysai rhoi amser a'r cymorth i'r athrawon i adfyfyrio ar arweinyddiaeth nhw yn ôl eu harddull adweinyddol a darparu strategaethau i'w cryfhau yn fanteisiol iawn. Mae'r ysgol bellach wedi hyrwyddo dau aelod o staff i'r tîm rheoli er mwyn eu uwchsgilio ar gyfer y genhedlaeth nesa o

arweinwyr yr ysgol. Mae hwn yn rhywbeth positif iawn, gan neu fod yn ffurfio cyfleoedd datblygiad proffesiynol o fewn rhwydwaith yr ysgol ac yn help i dyfu'r staff sydd ganddynt.

Casgliad

Mae'r offeryn Newydd Llywodraeth Cymru (2014) yn offeryn cynllunio strategaethol manwl iawn ac yn debyg iawn i gynlluniau strategaethol busnesau neu sefydliadau chwaraeon (Hoye, et, al., 2018). Sydd yn dangos eu trosglwyddeb o sefydliad i sefydliad. Mae'r CDY nawr yn glir ac yn gryno gyda'r flaenoriaeth wedi'i strwythuro.

Yn ôl yr ysgol, mae wedi dilyn yr offeryn yn glir ac wedi ffurfio blaenoriaethau sydd wedi penodi ar ddata blaenorol fel – adroddiad Estyn (2014), Data mewnol ysgol, ar fwch dysgu o ganlyniad I Covid-19. Mae'r ffactorau yma wedi'i adlewyrchu'n glir o ran y blaenoriaethau. Yn symud ymlaen yn fy natblygiad addysgol fe fydd y casgliad ar brofiad o weld CDY mor fanwl sydd yn cael eu cynnal mor llwyddiannus ar draws yr ysgol yn cefnogi fi i gymryd yr hyn sydd yn cael eu darparu gyda phwyslais a pherchnogaeth. Mae'r CDY yn rhoi atebolrwydd i bob aelod o staff yn yr ysgol gan eu bod yn dangos yn glir yr hyn sydd yn cael eu mesur a monitor. Gan ystyried hwn mae'n yn helpu ffurfio cyfeiriad i bob aelod o staff i anelu at ac yn helpu gyda chymhelliad a gweledigaeth athrawon unigol.

References

Rhan A

Campbell, J., Bell, V., Armstrong, S.C., Horton, J., Mansukhani, N., Matthews, M.H. and Pilkington, A., 2009. The impact of the Duke of Edinburgh's Award on young people.

Horton, J., Armstrong, S.C., Mansukhani, N., Matthews, M.H. and Pilkington, A., 2008. Youth volunteering in Northamptonshire: opportunities and barriers.

Do dofe - the duke of Edinburgh's award Duke of Edinburgh award. Available at <https://www.dofe.org/do> (Accessed: April 17, 2023).

Annual Statistics - The Duke of Edinburgh's award Available at: <https://www.dofe.org/statistics> (Accessed: April 17, 2023).

Rhan B

Ashford SJ, DeRue DS. 2012. Developing as a leader: the power of mindful engagement. *Organ. Dyn.* 41(2):146–54

Biondi, L. and Russo, S., 2022. Integrating strategic planning and performance management in universities: a multiple case-study analysis. *Journal of Management and Governance*, 26(2), pp.417-448.

Kim, L.E. and Asbury, K., 2020. 'Like a rug had been pulled from under you': The impact of COVID-19 on teachers in England during the first six weeks of the UK lockdown. *British Journal of Educational Psychology*, 90(4), pp.1062-1083.

Kross, E., Ong, M. and Ayduk, O., 2023. Self-Reflection at Work: Why It Matters and How to Harness Its Potential and Avoid Its Pitfalls. *Annual Review of Organizational Psychology and Organizational Behavior*, 10, pp.441-464.

Hoye, R., Smith, A.C., Nicholson, M. and Stewart, B., 2018. *Sport management: principles and applications*. Routledge.

Llywodraeth cymru 2014 : *Cynlluniau Datblygu Ysgolion*.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf>

(Accessed: April 17, 2023).

Leadership lite (2021) *EEF*. Available at: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/leadership-lite> (Accessed: April 17, 2023).

Cynllun Datblygu Ysgol lleoliad PAP 2

Prospectws ysgol

Wefan yr ysgol